LLyfrau LGBT+

Ar gael am ddim o RB Digital neu BorrowBox.

Call Me by Your Name – André Aciman



Mae ar gael ar BorrowBox - e-lyfr

Mae Call Me By Your Name yn stori rhamant sydyn a phwerus sy'n blodeuo rhwng glaslanc a gwestai haf ym mhlasty ei rieni wrth ochr clogwyn ar Riviera yr Eidal. Mae'r ddau heb fod yn barod am ganlyniadau eu hatyniad, pan, yn ystod wythnosau aflonydd yr haf, mae ceryntau di-baid obsesiwn, cyfaredd a dyhead yn dwysau eu hangerdd ac yn profi'r tir llawn gwefr rhyngddynt. Mae'n glasur ar unwaith ac yn un o straeon cariad mawr ein hoes.

Simon vs. the Homo Sapiens Agenda (AKA Love, Simon) – Becky Albertalli



Mae ar gael ar BorrowBox - e-Lyfr

Dylai pobl strêt orfod dod allan hefyd. A gorau po fwyaf lletchwith yw. Mae Simon Spier yn un ar bymtheg oed ac yn ceisio penderfynu pwy yw ef - a beth mae'n chwilio amdano. Ond pan fydd un o'i e-bost i Blue sy'n mynd â'i sylw yn mynd i'r dwylo anghywir, mae pethau'n mynd yn gymhleth iawn. Oh-erwydd, i Simon, mae cwympo mewn cariad â Blue yn rhywbeth mawr….*mae'n rhyw-beth blydi anferth ar y naw.*

My Brother's Name is Jessica – John Boyne



Ar gael ar BorrowBox – e-lyfr a llyfr sain

Ar gael ar RB Digital - e-lyfr

Mae Sam yn adnabod ei chwaer Jessica drwy gydol ei fywyd Heno yw'r tro cyntaf maen nhw'n mynd i gwrdd. Yr un person mae bob amser wedi dibyn-nu arnynt yw ei frawd hŷn annwyl - ond pan fyddant yn cyhoeddi eu bod yn trawsnewid, caiff bywyd Sam ei droi ar ei ben. Mae'n siŵr na fydd unrhyw beth byth yr un peth eto - ond fel mae Sam ar fin ei ddarganfod, does dim byd yn fwy cyson na char-iad. Portread emosiynol a theimladwy o daith un teulu at dderbyn, o feistr o storïwr.

The Yr hub
mwynhewch explore
eich Llyfrgell Leol
your Cardiff Library
CYNNIG DARLLEN CYFFREDINOL
UNIVERSAL READING OFFER
CARDIFF
CAERDYDD

Boy Erased: A Memoir of Identity, Faith and Family – Garrard Conley



Ar gael ar RB Digital - llyfr sain

Yn fab i weinidog gyda'r Bedyddwyr ac wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn bywyd yr eglwys mewn tref fach yn Arkansas, fel dyn ifanc roedd Garrard Conley yn ofni ac yn llawn dryswch am ei rywioldeb. Pan oedd Garrard yn fyfyriwr coleg pedair ar bymtheg oed, dywedwyd am ei rywioldeb wrth ei rieni a chafodd ei orfodi i wneud penderfyniad a fyddai'n newid ei fywyd: naill ai cytuno i fynychu rhaglen therapi trawsnewid a gefnogwyd gan yr eglwys ac a oedd yn addo ei "iachau" o wrywgydiaeth; neu fod mewn perygl o golli teulu, ffrindiau a'r Duw yr oedd yn gweddïo iddo bob dydd o'i fywyd. Weithiau'n dorcalonnus, weithiau'n fuddugoliaethus, mae'r cofiant hwn yn dyst i gariad sy'n goroesi er gwaethaf pawb a phopeth.

Am Newid – Dana Edwards

Ar gael ar BorrowBox - e-lyfr

Nofel boblogaidd ffres a chyfoes sy'n hawdd ei darllen sydd yn ceisio mynd i'r afael a'n hagweddau at bobl sydd ddim yn cydymffurfio a'n syniad ni o'r hyn sy'n draddodiadol. Mae Ceri'n dychwelyd i gartref ei phlentyndod, ond erbyn hyn mae'n berson gwahanol iawn.

Deryn Glan i Ganu – Sonia Edwards

Ar gael ar BorrowBox - e-Lyfr

Yr ail gyfrol yng Nghyfres y Dderwen, sef nofelau heriol ar gyfer yr arddegau hwyr ac yn addas i oedolion yn ogystal. Cyfres o ymsonau sydd yma yn dangos ymateb y cymeriadau i'r un digwyddiadau, a'r cyfan yn cyrraedd diweddglo dirdynnol. Mae'n cynnwys themâu cyfoes a pherthnasol i fywyd pobl ifainc.

The hub Yr hub
mwynhewch explore
eich Llyfrgell Leol your Cardiff Library
CYNNIG DARLLEN CYFFREDINOL UNIVERSAL READING OFFER
CARDIFF CAERDYDD

Rick – Alex Gino



Ar gael ar BorrowBox – llyfr sain

Nid yw Rick byth wedi cwestiynu llawer. Mae wedi dilyn ei ffrind gorau Jeff o gwmpas, hyd yn oed pan fydd Jeff wedi bod yn fwli. Mae wedi gadael i'w dad gellwair gydag ef am ferched, er ei fod yn peri iddo deimlo'n anghyfforddus. Mae pawb o'i gwmpas yn credu eu bod wedi gweld pwy yw ef. Ond y gwir yw, nid yw Rick wedi rhoi llawer o feddwl i'w hunaniaeth ei hun. Gyda chymorth ei ffrindiau newydd y mae'n cwrdd â nhw yng nghlwb y Rainbow Spectrum, mae Rick yn cychwyn ar daith i ddarganfod pwy yw ef mewn gwirionedd. Stori ysbrydoledig am ddod o hyd i'ch lle yn y byd.

Release – Patrick Ness



Mae ar gael ar BorrowBox - e-Lyfr

Y nofel fwyaf personol a thyner eto gan Patrick Ness, awdur *A Monster Calls* a enillodd fedal Carnegi ddwywaith. Mae'n ddydd Sadwrn, mae'n haf, ac er nad yw'n gwybod eto, mae popeth ym mywyd Adam Thorn yn mynd i gwympo'n ddarnau. Ond efallai, efallai y bydd yn cael rhyddid oherwydd y rhyddhau. Bydd y nofel tyfu'n oedolyn ysbrydoledig hon yn eich atgoffa o sut beth yw cwympo mewn cariad.

Hanner Amser – Nigel Owens



Ar gael o BorrowBox – e-Lyfr a llyfr sain

Cyn cyrraedd uchelfannau'r byd rygbi bu trwy argyfwng personol dirdynnol. Am flynyddoedd ni allai wynebu'r hyn ydoedd – roedd person y tu mewn iddo yn trio dod mas … Ef oedd y person cyntaf i 'ddod mas' fel dyn hoyw yn y byd rygbi proffesiynol. Ers gwneud hynny, newidiodd ei fywyd er gwell, a blodeuodd ei yrfa rygbi a darlledu.

Yn y gyfrol hon mae Nigel yn gwbl onest am ei fywyd personol a chyhoeddus, fel dyfarnwr a diddanwr. Mae'r tudalennau'n byrlymu o'r hiwmor a'r cynhesrwydd a'i gwnaeth yn un o'r cymeriadau mwyaf poblogaidd ar lwyfannau a meysydd rygbi trwy Gymru a thu hwnt.

It's Not Like It's a Secret – Misa Sugiura

Mae ar gael ar BorrowBox - llyfr sain

Mae gan Sana Kiyohara sy'n un ar bymtheg oed ormod o gyfrinachau. Mae rhai'n fach, er enghraifft sut mae'n ei phoeni pan nad yw ei ffrindiau'n ei gwahodd i bartïon. Mae rhai'n fawr, er enghraifft y ffaith bod ei thad yn cael carwriaeth ar y slei. Ac wedyn yr un na all o'r braidd ei chyfaddef iddi ei hun - yr un am ei bod wedi gwirioni o bosibl ar ei ffrind gorau. Roedd Sana bob amser yn credu mai'r peth anoddaf fyddai dweud wrth bobl ei bod hi eisiau mynd allan gyda merch, ond fel mae hi'n darganfod, mae dweud y gwir yn rhwydd…mae beth sy'n dod wedyn yn fwy cymhleth o lawer.

Kiss – Jacqueline Wilson



Mae ar gael ar BorrowBox - e-Lyfr

Mae Sylvie a Carl wedi bod yn ffrindiau ers iddyn nhw fod yn blant bach. Maen nhw bob amser wedi chwarae gyda'i gilydd, wedi galw sboner a wejen ar ei gilydd, ac yn y bôn, mae Sylvie bob amser wedi credu y byddan nhw'n priodi ei gilydd. Ond wrth iddyn nhw fynd yn hŷn, mae pethau'n dechrau newid. Mae gan Carl ffrind newydd, Paul, sy'n mynd â'i sylw i gyd. Yn deimladwy ac yn gymhellon, mae *Kiss* yn stori troi'n oedolyn yr ymdrinnir â hi'n dyner gan yr awdur arobryn Jacqueline Wilson.

Oranges Are Not the Only Fruit – Jeanette Winterson

Mae ar gael ar BorrowBox - e-Lyfr

Dyma stori Jeanette, wedi'i mabwysiadu ac wedi'i magu gan ei mam fel un o etholedigion Duw. A hithau'n frwdfrydig ac yn angerddol, roedd yn ymddangos ei bod yn mynd i fod yn genhades, ond wedyn mae'n cwympo mewn cariad ag un o'i thröedigion. Yn un ar bymtheg oed, mae Jeanette yn penderfynu gadael yr eglwys, ei chartref a'i theulu, ar gyfer y fenyw ifanc y mae'n ei charu. Yn arloesol, yn bigog ac yn dyner, mae Oranges Are Not the Only Fruit yn daith am gyfnod i mewn i allbyst rhyfedd ormodedd crefyddol ac obsesiwn dynol.

Gall aelodau Llyfrgell Caerdydd lawrlwytho eitemau yn y rhestr awgrymiadau darllen hon fel eLyfrau neu lyfrau sain am ddim drwy Gatalog y Llyfrgell:

https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/cy_GB/card_cy/

Gall unigolion nad ydynt yn aelodau eto gofrestru drwy Gatalog y Llyfrgell.

mwynhewch explore
eich Llyfrgell Leol
your Cardiff Library

CARDIFF
CAERDYDD